ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Ebrill 2018

Gweithdy Cyfiawnder mewn Diwrnod / Justice in a Day i ddisgyblion Blwyddyn 9

Ar y 14eg o Fawrth cafodd nifer o ddisgyblion Bl.9 ynghyd â disgyblion Ysgol Glan y Môr fod yn rhan o brosiect Cyfiawnder mewn Diwrnod yng Nghaernarfon. Cafodd y disgyblion y cyfle i fynychu diwrnod i godi ymwybyddiaeth o effeithiau posibl ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Ar ddiwedd y dydd buont yn ymweld â Llys y Goron, Caernarfon. Bu i'r disgyblion fwynhau'r diwrnod ac yn sicr roedd yn agoriad llygad iddynt. Ar ddydd Mercher y 15fed o Fawrth daeth y Gweithdy Cyfiawnder mewn Diwrnod i'r ysgol i gynnal mwy o sesiynau i ddisgyblion Bl.9.

Cwrs Success Adolygu at Arholiadau Bl.10 ac 11 – Dydd Gwener 23ain o Fawrth cynhaliwyd gweithdy adeiladol i ddatblygu meddylfryd positif tuag at adolygu ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 ac 11. Cyflwynwyd dulliau amrywiol o adolygu yn effeithiol a oedd o gymorth mawr. Ar ddiwedd y gweithdy cwblhaodd y disgyblion holiadur yn rhoi adborth ac roedd yr adborth yn hynod bositif ac yn cytuno fod y gweithdy wedi bod yn werthfawr iawn iddynt.

Codi arian - ar Fawrth y 1af cafwyd diwrnod di-wisg ysgol a stondin gacennau i godi arian tuag at gynllun gwobrwyo'r ysgol a llwyddwyd i godi £214.60.

Gweithdy Emyr Gibson - Ar ddydd Mawrth 20fed o Fawrth daeth yr actor Emyr Gibson i mewn i gynnal gweithdy Drama gyda'r Clwb Drama yn theatr yr ysgol. Bu'r plant wrthi am ddwy awr yn creu darnau actio ar gyfer recordio o flaen sgrin werdd ddigidol. Cafodd y disgyblion lu o brofiadau yng nghwmni Emyr - 2 awr gwerth chweil a diolch iddo am ddod.

Chwaraeon - Llongyfarchiadau i Lleucu Lane a Huw Evens ar gynrychioli Eryri yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad Cymru yn Y Bannau Brycheiniog. Da iawn chi.